

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad: Dydd Iau 21 Mehefin 2001
Amser: 2.00 to 5.00 pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

ASiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Edrych Ymlaen**1. Cyflwyniad**

Ynghyd â chyrrff eraill, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn wynebu cyfnod heriol yn sgil y cynnydd sylweddol mewn deddfwriaeth amgylcheddol newydd y byddwn yn gyfrifol amdani, ar ben ein gwaith presennol. Rydym yn awyddus i wneud y gorau o gyfleoedd i oresgyn problemau hanesyddol, diogelu'r amgylchedd rhag bygythiadau yn y dyfodol a gwella ansawdd bywyd i bawb yng Nghymru. Rydym wedi ymrwmo i wneud y gorau o'n hadnoddau ac i weithio gydag eraill.

2. Gweledigaeth at y dyfodol

Mae Gweledigaeth yr Asiantaeth, a lansiwyd ym mis Ionawr, yn rhagweld "amgylchedd iach, cyfoethog ac amrywiol yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory". Byddwn yn gweithio tuag at y Weledigaeth hon yng nghyd-destun cyffredinol 6ed Cynllun Gweithredu Amgylcheddol yr UE a gweledigaeth dymor-hir y Cynulliad ar gyfer Cymru well. Ein nod yw gwell ansawdd bywyd, a gyflawnir drwy sicrhau amgylchedd glanach, iachach a mwy amrywiol, ynghyd â chymdeithas ac economi iachach.

Mae'r Weledigaeth yn egluro i ba gyfeiriad yr ydym am fynd, ond mae hefyd yn dweud llawer am y modd yr awn ati i wneud ein gwaith. Rydym am ddefnyddio'r holl arfau sydd ar gael inni – rheoleiddio, gwyddoniaeth, addysg, gwybodaeth a dylanwad – i gyrraedd y nodau hyn. I gyflawni ein dyheadau, bydd angen inni weithio gyda phob sector o gymdeithas – cyhoeddus, preifat ac unigol – a rhoi mwy o lais i bobl yn y broses o wneud penderfyniadau. Rydym wedi ymrwmo i weithio'n nes ag amrywiaeth o bartneriaid i helpu sicrhau'r canlyniadau allweddol hyn.

Rydym wrthi'n dehongli goblygiadau'r Weledigaeth hon ar gyfer y prif sectorau diwydiannol a grwpiau cymunedol y gweithiwn gyda hwy, drwy ymgynghori â'r grwpiau hyn i ddatblygu cyfres o ddogfennau wedi'u teilwra'n arbennig ar eu cyfer.

3. Cynllun Cofforaethol 2002-03

Fel corff dros Gymru a Lloegr, mae ein cylch cynllunio corfforaethol yng Nghymru yn ymglymu a thrafodaethau sy'n cael eu cynnal rhwng yr Asiantaeth a'i noddwyr yn Lloegr, er mwyn sicrhau cysondeb a Lloegr lle bo'n berthnasol. Fel canlyniad, ni fyddwn yn cyhoeddi ein cynllun corfforaethol tan mis Rhagfyr 2001, er y byddwn yn cyhoeddi ein dogfen Adolygiad Blynyddol ac Edrych Ymlaen i'n

adran noddi o fewn y Cynulliad ym mis Gorffennaf. Bydd ein cais manwl am gymhorthdal yn cyd-fynd a'r ddogfen hon.

Bydd ein prif sialensau yn cynnwys:

- parhau i gyflawni ein gwaith creiddiol hanfodol o fewn y gyllideb sylfaenol;
- darparu am, a gweithredu nifer fawr o Gyfarwyddbau CE newydd (e.e. Cyfarwydddeb Tirlenwi, a Cyfarwydddeb Cynefinoedd);
- ymateb i Strategaeth Gwastraff Cymru;
- gwella'r gwasanaeth rhybuddio am lifogydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd;
- hybu pysgodfeydd eogiaid sy'n dirywio a thrwy hynny yr economïau gwledig a gynhaliant;
- creu a gweithredu strategaethau rheoli tynnu dë r o ddalgylchoedd.

Blaenoriaethau ein busnes bydd:

- cyhoeddi mwy o wybodaeth;
- annog trafodaeth cyhoeddus;
- cwrdd > thargedau e-lywodraeth'
- parhau i wella'n perfformiad amgylcheddol mewnol.

Gweler crynodeb o'n gweithgareddau blaenorol a gynllunir am 2002-03 yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1:

Them> u

Gweithgareddau a gynllunir 2002/2003

Gwell safon bywyd

Cyflawni CIIAAu a chysylltu'r gweithrediadau i fewn i strategaethau cymunedol yn y dyfodol.

Gweithio mewn partneriaeth i ymgymryd > rhaglen strategol o welliannau i gynefinoedd afonydd a physgodfeydd.*

Amgylchedd gwell i fywyd gwyllt

Parhau a'n arolygiad o'n trwyddedau amgylcheddol er mwyn sefydlu pa rai all fod yn niweidio safleoedd Natura 2000.*

Parhau a rhaglen i gyflawni gweithrediadau'r Cynllun Rheoli Lefelau Dë r parthed SDGAu (ble rydym yn rheoli lefelau dë r).

Aer glanach i bawb

Parhau a'n hymgyrch i dynnu allyriadau nwyon tí gwydr i lawr drwy reoleiddio, e.e. drwy weithredu'r Cyfarwyddeb ArhLII.

Ymateb i bryderon y cyhoedd am geisiadau newydd neu ddiwygiol parthed allyriadau i'r aer.

Gwarchod a gwella'n dyfroedd arfordirol a mewndirol

Parhau i gyd-weithio > 'r cwmnV au dë r er mwyn cyflawni'r gwelliannau ansawdd dë r o dan AMP3 a dechrau'r cynllunio erbyn AMP4.

Gweithio ar y cyd i ddechrau cyflawni Strategaeth Cloddfeydd Cymru.

Gwarchod ac adfer tir gyda phriddoedd iachach

Cyflawni'r Rheolaeth Tir Llygredig.

Archwilio tri safle ychwanegol o dir llygredig.

Rheoleiddio lledaenu gwastraff ar dir.*

Byd busnes mwy gwyrdd

Cynorthwyo diwydiant i gwrdd ac oblygiadau'r Cyfarwyddeb Tirlenwi a'r Rheoliadau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd.*

Parhau i weithio ar y cyd i leihau gwastraff, arbed llygredd a lleihau'r defnydd o ddë r.

Defnydd call a chynaliadwy o adnoddau naturiol

Cyd-lynu ac, ble'n briodol, cyflawni Strategaeth Gwastraff Cymru, gan gynnwys ail-arolygiad er mwyn cael gwell dealltwriaeth o faterion gwastraff.*

Cynhyrchu'r pedwar Strategaeth Rheoli Tynnu Dë r Dalgylchoedd cyntaf.

Cyfyngu a dygymod > newid hinsawdd

Parhau i ddefnyddio'n r^ l rheoleiddio i dynnu lawr allyriadau nwyon tí gwydr. Hefyd, byddwn yn annog diwydiant i fabwysiadu ymarfer gorau, e.e. adennill llosgnwy (methan) o safleoedd tirlenwi.

Lleihau'r perygl o lifogydd

Parhau i gwrdd > Thargedau Lefel Uchel y Cynulliad. Cyflwyno'r bas-ddata o asedau amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru.

Mae'r rhai a nodir > * yn ddibynnol ar gais llwyddiannus am gymhorthdal ychwanegol.

4. Cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynulliad a datblygiad cynaliadwy

Byddwn yn parhau i fod yn gysylltiedig â helpu i ddatblygu llawer o bolisiâu allweddol y Cynulliad, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i gymunedau, trafniadaeth, egni, gwastraff, iechyd, cyfawryddiadau cynllunio a'r economi. Mae ein cyfraniad yn y meysydd hyn yn hanfodol gan ei fod yn rhoi cyfle inni hybu'r arferion cynaliadwy gorau, a hefyd oherwydd y bydd polisi da yn helpu i sicrhau'r newidiadau

sydd eu hangen mewn ymddygiad a pherfformiad yng Nghymru.

Ar y lefel strategol, byddwn yn parhau i gynghori Uned Datblygiad Cynaliadwy y Cynulliad, ynghyd â Chyrff Cyhoeddus eraill a Noddir gan y Cynulliad a'r Sector Gwirfoddol, a gweithio ac eraill i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Byddwn hefyd yn cynorthwyo'r datblygiad o ddangosyddion cynaliadwyedd ac asesu cynaliadwyedd. Rydym wedi ymrwmo i hybu datblygiad cynaliadwy yng Nghymru a thu hwnt, ac i ledaenu'r arfer gorau o fewn y rhaglen Amcan 1. Fel rhan o'r bartneriaeth "Enfys", byddwn yn cynorthwyo gyda rheoli rhaglen y Cronfa Cyfleoedd Newydd, "Lleoedd Gwyrdd a Chymunedau Cynaliadwy" yng Nghymru.

Mae llawer o'n gwaith pob dydd yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynulliad; rydym hefyd yn gwneud cais am gymhorthdal ychwanegol fel y gallwn gryfhau ein cyfraniad at Gymru well.

5. Adnoddau

5.1 Cynlluniau Incwm a Gwariant

Gweler ein cynlluniau incwm a gwariant yn Nhabl 2 isod, wedi eu sylfaenu ar adnoddau a darpariaethau cyfredol. Mae'r targedau perthnasol i'w cael yn ein Cynllun Corfforaethol Cymru 2001-02 sydd ar ein gwefan www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk

Tabl 2	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05
	Gwir	Cyllideb	Cynllunir	Amcan	Amcan
	£000	£000	£000	£000	£000
GWARIANT	20403	22327	23356	24698	25072
Gwarchod yr Amgylchedd	33911	39659	40245	40999	41772
Rheoli Dè r	54314	61986	63601	65697	66844
Cyfanswm Gwariant					
INCWM	42110	47269	47926	48770	50100
Taliadau, costau ac incwm arall	655	2122	2280	2532	2349
Cymhorthdal amddiffyn rhag llifogydd y Cynulliad ¹	11549	12595	13395	14395	14395
	54314	61986	63601	65697	66844
Cymhorthdal y Cynulliad ²					
Cyfanswm Incwm					

Notes: ¹ Sylfaenir ar amcangyfrifiadau cyfalaf amddiffyn rhag llifogydd a threthi cymhorthdal cyfredol a gytunwyd.

² Cymhorthdal y Cynulliad fel y'i gadarnhawyd.

Mae tua 20% o'n hincwm yn dod o Gymhorthdal (Grant-in-Aid), ac 80% yn dod o daliadau, costau a ffynhonnellau eraill. Mae'r Cymhorthdal yn cyllido gwaith hanfodol iawn, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Cyfarwyddbau CE newydd a nifer o'r mentrau yr hoffwn hybu i gwrdd > thargedau Gwell Cymru. Ni fydd yr £1m a benodir gan y Cynulliad am 2002/03 yn ddigonol er mwyn i'r Asiantaeth gyllido mentrau yng Nghymru sy'n gyfochrog > 'r mentrau yn Lloegr, ac sydd wedi derbyn cymhorthdal ychwanegol yn barod gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Cefn Gwlad.

2. Ceisiadau am adnoddau ychwanegol

Ceir crynodeb o geisiadau am gymhorthdal am 2002/03 yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3

PWYSAU CYMRU A LLOEGR	£k	PWYSAU CYMRU YN UNIG	£k
GWASTRAFF		GWASTRAFF	
Cyfarwyddeb Tirlenwi – caniat< u gwaith.	250	Strategaeth Gwastraff Cymru: gwaith data ychwanegol.	40
Cyfarwyddeb Compostio – datblygu polisi.	25	Cefnogi diwydiant i gwrdd a thargedau'r Cyfarwyddeb Tirlenwi.	70
Arolwg Gwastraff Cymru a Lloegr.	165	Ymdrin > mwy o achosion o ledaenu gwastraff ar dir.	75
Mynd i'r afael > Throseddau Amgylcheddol - datblygu rhwydwaith wybodaeth dros Gymru a Lloegr.	30	Deallt y cysylltiadau rhwng ansawdd aer/allyriadau o safleoedd gwastraff a materion iechyd y cyhoedd.	180
Cyfarwyddeb Diwedd Bywyd Cerbydau - datblygu polisi.	20	ANSAWDD Dê R	
Cyfarwyddeb Bio-Wastraff – datblygu polisi.	15	Mynd i'r afael > llygredd gwasgaredig sy'n effeithio ar ddyfroedd ymdrochi.	105
ANSAWDD Dê R		GWAITH ADFER	
Ardaloedd sy'n fregus i Nitrad: Enwebiadau Newydd - gwaith monitro.	200	Gweithio mewn partneriaeth er mwyn asesu cyfaint y gwaith adfer yn safleoedd cloddi metel.	50
Rhaglen fuddsoddi'r cwmnV au dë r (AMP4) – gwaith dechreuol cynnar.	20	Rhoi cap ar ben safle tirlenwi Abernant.	200
			=

Cyfarwyddeb Fframwaith Dë r - datblygu polisi.	190	CYFARWYDDYD CYNEFINOEDD	
GWARCHOD YR AMGYLCHEDD		Arolygu ein trwyddedau cyfredol.	200
Ymgynghori > 'r cyhoedd ar drwyddedau cynhennus.	30	Mynd i'r afael ac effaith llygredd gwasgaredig ar amcanion ansawdd dë r.	180
Meini Prawf Isa'r CE am Archwiliadau - cyhoeddi mwy o wybodaeth.	30	PWYLLGOR AMAETH @	
		[PYSGODFEYDD]	
Strategaeth gollyngiadau DU canllawiau polisi a hyfforddiant.	45	Ymateb i ganlyniad posibl yr Arolygiad Eog a Physgodfeydd Dë r Croyw [ddim yn cynnwys y cais am £300 mil o gyd-gyllido gan y cynulliad dan Amcan 1].	800
Cyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol - datblygu polisi.	20		
CYFANSWM	1,040	CYFANSWM	1,900

= hefyd yn destun cais mewn-blwyddyn yn 2001/02.

@ i'w ystyried gan y Gweinidog Materion Cefn Gwlad/Pwyllgor ADCW.

Crynodeb: cyfanwm y cais yw £2.94 miliwn, gyda £1.04 miliwn ohonno i gwrdd > phwysau Cymru a Lloegr. Mae'r cais o £1.9miliwn i gwrdd > phwysau Cymru yn unig yn cynnwys cais sy'n gysylltiedig > physgodfeydd o £0.8 miliwn, a cais Cyfarwyddeb Cynefinoedd o £0.2 miliwn. Mae'r cyntaf yn fater i'r Pwyllgor Amaeth, a'r ail yn berthnasol i ddapariaeth sylfaenol ar wah> n.

Roger Thomas

Cyfarwyddwr Cymru 13 Mehefin 2001